# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (GALW I MEWN)** | | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE (CALL-IN)** |
| **DYDD GWENER, 26 MAWRTH 2021 am 9.30 y bore** | | **FRIDAY, 26 MARCH, 2021 at 9:30 a.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | | **VIRTUAL MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes<br>01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>GALW PENDERFYNIAD I MEWN: ADRODDIAD GWRTHWYNEBU - MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGEFNI YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG</u>** (Tudalennau 1 - 42)

Mae cais galw i mewn wedi ei gyflwyno gan y Cynghorwyr Bryan Owen, R. Llewelyn Jones, Kenneth Hughes, Peter Rogers ac Aled Morris Jones ynglyn â phenderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth, 2021 mewn perthynas ag Adroddiad Gwrthwynebu yng nghyswllt Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni - Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.

Mae'r ddogfennaeth fel a ganlyn –

- Y penderfyniad a gyhoeddwyd ar 16 Mawrth, 2021
- Y cais galw i mewn
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mawrth, 2021.

**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Mawrth, 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mawrth, 23 Mawrth, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 24 Mawrth, 2021.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), Cynghorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 11.05 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Adroddiad Gwrthwynebu – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni - Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, dod i benderfyniad ar ôl ystyried gwrthwynebiadau** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

This page is intentionally left blank

**FFURFLEN GAIS I ALW PENDERFYNIAD I MEWN / CALL-IN APPLICATION FORM**

- **RHAID i bump aelod nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith** lofnodi a danfon y ffurflen at y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd) yn ystod y cyfnod galw-i-mewn fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Dylid anfon copi hefyd at y Rheolwr Sgriwtini.
- ***MUST be signed by five Non–Executive Members*** *and delivered to the Chief Executive (or representative) during the call- in period as stipulated in the Constitution. A copy should also be forwarded to the Scrutiny Manager.*

**RHAN 1 / *SECTION 1***

**Y PENDERFYNIAD A WNAED –** Ticiwch y bocs i ddangos pwy wnaeth y penderfyniad a nodwch y dyddiad y gwnaed y penderfyniad:

***DECISION TAKEN –*** *Tick the box to show the decision taker and insert the date when the decision was made:*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwyllgor Gwaith** | √ | ***The Executive*** | |
| **Yr Arweinydd** | | ***The Leader*** | |
| **Aelod Portffolio (gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith)** | | ***Portfolio Member (with delegated authority from the Executive)*** | |
| **Swyddog (gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith)** | | ***Officer (with delegated authority from the Executive)*** | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y penderfyniad / *Date of decision:*** | 15/03/2021 |

**RHAN 2 / *SECTION 2***

**RHIF EITEM Y PENDERFYNIAD A'R PWNC** (gellir cael y wybodaeth hon o'r penderfyniad a gyhoeddwyd) ***/ DECISION ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER*** *(Information is identifiable from published decision)*

**Eitem 2: Adroddiad Gwrthwynebu – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni – Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig**

***Item 2: Objection Report – Llangefni Area Schools' Modernisation – Ysgol Talwrn and Ysgol y Graig***

**RHAN 3 / *SECTION 3***

**Y RHESWM DROS ALW'R PENDERFYNIAD I MEWN / *REASON FOR CALL IN:***

i. **Mae'r penderfyniad yn cael ei ruthro mewn amser o bandemig**
ii. **Cyhoedd yn teimlo nad ydynt wedi cael gwrandawiad teg**

*i.* ***The decision is being rushed during a pandemic***

|  |
|---|
| ***ii. The public feel that they have not had a fair hearing*** |

**RHAN 4/ *SECTION 4***

**Y CWESTIWN ALLWEDDOL Y BWRIEDIR EI OFYN/ *KEY PROPOSED QUESTION*:**

|  |
|---|
| **Pryderu ynglŷn â gwerth am arian**<br><br>***Concern about value for money*** |

**RHAN 5/ *SECTION 5***

**YR AELOD SY'N ARWAIN Y BROSES GALW I MEWN (enw'r Aelod sy'n Arwain fel y gellir sefydlu pwynt cyswllt) / *LEAD CALL-IN MEMBER (Lead Call-In Member to be identified so that a point of contact is available):***

|  |
|---|
| **Cynghorydd Bryan Owen**<br><br>***Cllr Bryan Owen*** |

**RHAN 6/ *SECTION 6***

|  |
|---|
| **1) Llofnod/*Signature:***<br>Derbyniwyd cadarnhad drwy ebost gan y Cyng Bryan Owen<br><br>*Confirmation received via e-mail from Cllr Bryan Owen*<br><br>**Printiwch eich Enw/ *Print Name:* Cyng / Cllr Bryan Owen** |
| **2) Llofnod/*Signature:***<br>Derbyniwyd cadarnhad drwy ebost gan y Cyng Robert Llewelyn Jones<br><br>*Confirmation received via e-mail from Cllr Robert Llewelyn Jones*<br><br>**Printiwch eich Enw/ *Print Name:* Cyng / Cllr Robert Llewelyn Jones** |
| **3) Llofnod/*Signature:***<br>Derbyniwyd cadarnhad drwy ebost gan y Cyng Kenneth P Hughes<br><br>*Confirmation received via e-mail from Cllr Kenneth P Hughes*<br><br>**Printiwch eich Enw/ *Print Name:* Cyng / Cllr Kenneth P Hughes** |
| **4) Llofnod/*Signature:***<br>Derbyniwyd cadarnhad drwy ebost gan y Cyng Peter Rogers<br><br>*Confirmation received via e-mail from Cllr Peter Rogers* |

| |
|---|
| **Printiwch eich Enw/ *Print Name:* Cyng / Cllr Peter Rogers** |
| **5) Llofnod/*Signature:***<br>Derbyniwyd cadarnhad drwy ebost gan y Cyng Aled Morris Jones<br><br>*Confirmation received via e-mail from Cllr Aled Morris Jones*<br><br>**Printiwch eich Enw/ *Print Name:* Cyng / Cllr Aled Morris Jones** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Mawrth 2021** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Gwrthwynebu – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni**<br>**Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Cyfarwyddwr:** | **Rhys H Hughes**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn<br>E-bost: | **Emrys Bebb**<br>2919<br>emrysbebb@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Bob Parry**<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**
Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cyhoeddodd y Cyngor Rybudd Statudol ar **18 Ionawr 2021** o'i fwriad i:

> **Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 18 Ionawr 2021, ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 15 Chwefror 2021.

**Derbyniwyd 46 gwrthwynebiad i'r cynnig uchod.**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i'r cynigydd neu'r cynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiad a gafwyd h.y. adroddiad gwrthwynebu. Gweler yr adroddiad gwrthwynebu yn **Atodiad 1**.

Mae'r ffordd y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol yn dilyn trefn sydd yn unol â'r Còd Trefniadaeth Ysgolion ac sydd mewn grym ers mis Hydref 2013.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, adran 5.3, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol "benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau."

**Argymhelliad**
Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a dderbynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef**:**

**I gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

**Cefndir**

Rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol gan swyddogion y Cyngor ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y 'papur cynnig' ym mis Ionawr 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar ddiwrnod olaf yr ysgol cyn y cyfnod clo cyntaf (20 Mawrth 2020), o ganlyniad i'r pandemig byd-eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod.

Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru (Y Gangen Trefniadaeth a Derbyniadau Ysgolion) yn datgan bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 drwy gydol y cyfnod pandemig.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, ystyriwyd cynnig gwreiddiol y Cyngor a nifer o gynigion eraill yn fanwl. Er enghraifft (ond ddim yn gyfyngedig i):

- Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn
- Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn
- Ehangu’r holl ysgolion cynradd (Ysgol y Graig, Ysgol Talwrn, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir)

Cafwyd 57 o ymatebion ar-lein a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau cymunedol fel Merched y Wawr ac eraill.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, awgrymwyd modelau addysgol eraill gan randdeiliaid ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion bresennol (a nodir isod) wrth baratoi'r adroddiad ymgynghoriad. Dyma enghreifftiau o'r math o fodelau a gyflwynwyd gan randdeiliaid:

- Adeiladu ysgol gynradd newydd yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.
- Ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig
- Cynnwys dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a blynyddoedd 1-6 yn Ysgol y Graig

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u gwendidau a'u cryfderau yn erbyn gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion, ystyrir mai'r cynnig gwreiddiol yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.

Daethpwyd i’r casgliad hwn gan fod y cynnig yn cwrdd â’r heriau allweddol (a nodir yn fras isod) a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac mae’n cwrdd â gofynion y gyrwyr newid allweddol a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i’r diben
- gwella safonau addysgol;
- gwella arweinyddiaeth a rheolaeth;
- lleihau nifer y lleoedd gweigion;

- lleihau cost addysg yn gyffredinol a'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl;
- cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a
- chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion.

Yn ogystal, byddai'r cynnig yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol i'r dyfodol.

Mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol fel a ganlyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth. **Byddai'r ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal gradd Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.**
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae penaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir na fyddai gan y pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu. **Byddai'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.**
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog pob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM rhagorol. **Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £505,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.**
- Mae angen i **leoedd ysgol** digonol fod ar gael yn yr ardal er mwyn cwrdd a'r galw presennol, rhagolygon niferoedd cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn ac o du allan i'r dalgylch os oes modd - **mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. Yn ogystal, bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd**.
- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.Bydd y cynnig yn cael gwared o'r amrywiaeth yn nghost y pen yn yr ardal, ac amcangyfrifir byddai cost y pen Ysgol y Graig ehangedig yn is na chyfartaledd ysgolion cynradd Môn.
- Mae'r cynnig yn arwain at gost refeniw ychwanegol o tua £33,000 y flwyddyn (rhoddir mwy o wybodaeth yn rhan D), fodd bynnag mae'n dileu costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £505,500. Pe byddai'r cyngor yn ariannu'r gwaith hwn drwy fenthyciad digefnogaeth dros gyfnod o 20 mlynedd, byddai hynny yn costio tua £40,000 y flwyddyn i'w gyllido. **Gellir dod i'r casgliad felly bod y cynnig yn agos at fod yn gost niwtral.**
- **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** - fan leiaf, byddai'r ddarpariaeth dda bresennol yn **cael ei chynnal**.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgolion a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl – **byddai'r gymuned ehangach yn parhau i gael budd trwy gael defnyddio'r adeilad ysgol newydd ehangedig.**

**I grynhoi felly, y cynnig dan sylw yw "Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yn yr adroddiad ymgynghoriad, cafodd 12 o opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn eu hystyried a'u hasesu ymhellach. Noder yr opsiynau hynny fel a ganlyn:<br>1. Buddsoddi yn Ysgol Talwrn i ddod â hi i safon Ysgolion 21ain Ganrif<br>2. Agor ysgol ardal newydd i Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth<br>3. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)<br>4. Gadael Ysgol Talwrn fel y mae<br>5. Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn<br>6. Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth<br>7. Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti<br>8. Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn<br>9. Ffedereiddio Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch ac ymestyn Ysgol Y Graig.<br>10. Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a ffedereiddio gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd<br>11. Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran ffedereiddio yn nes ymlaen.<br>12. Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.<br>Cafodd yr holl opsiynau eu hystyried a'u gwerthuso yn yr adroddiad ymgynghoriad yn erbyn y gyrwyr allweddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Er hynny, nid oedd yr opsiynau yn cwrdd â'r gyrwyr allweddol amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion o'u cymharu â'r cynnig. Nid oeddent ychwaith yn ymateb i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi.<br><br>Mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith) a Dogfen Gyflawni Blynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn). |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi – mae'n rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion<br><br>Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth newydd yn costio tua £6 miliwn i'w hadeiladu. Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu 65% drwy raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu 35%. |

| |
|---|
| Os bydd adeilad presennol Ysgol Talwrn yn cael ei werthu, rhagdybir gallai hyn gyfrannu tua £150,000 tuag at gyfraniad y Cyngor.<br><br>Fe fydd cyfraniad y Cyngor tuag at y prosiect yn cael ei ariannu trwy fenthyca digefnogaeth. Rhagdybir y byddai'r ad-daliadau blynyddol yn costio tua £94,000.<br><br>Fe fydd costau cynnal adeilad Ysgol y Graig yn cynyddu, er enghraifft, costau trethi, ynni a glanhau. Fodd bynnag, bydd yr arbedion a wneir trwy gau Ysgol Talwrn yn gwrthbwyso'r rhain yn fwy. Mae arbediad yn erbyn costau cynnal adeilad Ysgol Talwrn, yn ogystal â'r elfennau sefydlog mae pob ysgol yn eu derbyn trwy'r fformiwla cyllido ysgolion (h.y. bydd un ysgol yn llai yn derbyn yr elfennau sefydlog). Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at arbediad o £31,000 y flwyddyn wedi ystyried popeth.<br><br>Pe byddai'r Cyngor yn gwneud dim, rhagdybir y byddai Ysgol y Graig yn sylweddol dros ei chapasiti yn y dyfodol, ac felly byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu i gludo disgyblion i ysgolion lle mae llefydd gweigion. Mae'r cynnig hwn yn creu capasiti ychwanegol yn yr ardal, felly ni fydd rhaid cludo disgyblion o'r ardal, ac yn sgîl hyn bydd y Cyngor yn osgoi tua £60,000 o gostau cludiant y byddai wedi gorfod eu talu yn y dyfodol pe bai'n gwneud dim. Byddai costau o tua £30,000 y flwyddyn i gludo disgyblion o ddalgylch Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig, gan nad oes llwybr cerdded diogel, felly byddai'r arbediad yn erbyn y pennawd cludiant tua £30,000 y flwyddyn.<br><br>Felly y gost net blynyddol i'r Cyngor fyddai tua £33,000 (£94,000 - £31,000 – £30,000)<br><br>Bydd y cynnig hefyd yn dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £505,500 rhwng Ysgol Talwrn (£447,500) ac Ysgol y Graig (£58,000). Pe byddai'r Cyngor yn ariannu'r gwaith hwn drwy fenthyciad digefnogaeth dros gyfnod o 20 mlynedd, byddai hynny yn costio tua £40,000 y flwyddyn i'w gyllido. Gellir dadlau bod y swm yma hefyd felly yn arbediad.<br><br>Mae balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o £2,089,338 ym mis Mawrth 31 2017 i £197,315 ym mis Mawrth 31 2020. Ym mis Mawrth 31 2017, roedd 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd mewn diffyg. Erbyn 31 Mawrth 2020, roedd 9 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig mewn diffyg.<br><br>**Felly, mae'r cynnig yn fforddiadwy i'r Cyngor. Mae'r Cyngor o'r farn mai annoeth fyddai peidio buddsoddi gan fod cynnydd wedi bod yn niferoedd plant yn yr ardal yn y gorffennol a bydd niferoedd plant yn parhau i gynyddu o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau tai yn nalgylch Ysgol y Graig.** |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg yn ardal Llangefni ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol ar gyfer cenedlaethau o blant newydd. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau BREEAM a safonau Ysgolion 21ain Ganrif. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd y cynnig yn datblygu adeilad ysgol newydd fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn mynd yn "Gyfundrefn Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Yn eu tro, dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol fydd yn eu helpu nhw i fod yn oedolion ifanc sydd yn: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, fydd yn barod i ddysgu drwy eu bywydau<br>• gyfranwyr anturus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.<br><br>Bydd y cynnig yn cael ei ariannu 65:35 gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Band 'B' Ysgolion 21ain Ganrif a'r Cyngor. Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Mae'r cydweithrediad sydd wedi digwydd a'r wybodaeth a gafwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymuned a'r ysgolion wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Aelod lleol y Senedd<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Cymuned a Thref lleol<br>• Undebau dysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig<br>• Cylch Meithrin Talwrn a Dechrau'n Deg<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb<br><br>Derbwynwyd 57 o ymatebion ar-lein a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost<br><br>Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori yn y ddwy ysgol ym mis Chwefror 2020 i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac i egluro'r broses ymgynghori i Staff, Llywodraethwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid a'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb a oedd yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr sut i ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Do. Mae rhanddeiliaid (Rhieni / Gwarcheidwaid, aelodau staff, Llywodraethwyr, y disgyblion ac eraill sydd a diddordeb) wedi cael cyfle yn ystod y broses ymgynghori |

| | | |
|---|---|---|
| | | statudol i gyfrannu'n rhagweithiol ac i chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd ymlaen fydd yn cael ei gytuno.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol o ran ymgynghori ar gynigion yn ystod y pandemig ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cadw at y canllawiau hyn. |
| **5** | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir. Mae gan y cynnig gyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn Ysgol Y Graig fydd wedi ei hehangu.<br>Dywedodd Estyn fod asesiad effaith y Cyngor "yn awgrymu y caiff y cynnig effaith gadarnhaol ar y Gymraeg".<br>Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. |

| **E – Gyda phwy a ymgynghoroch chi?** | | **Beth oedd eu harsylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA)** (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**(gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| **5** | **Eiddo** | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae safon yr offer TGCh megis taflunyddion a byrddau gwyn rhyngweithiol yn isel yn Ysgol Talwrn ac yn amrywio yn Ysgol y Graig. Byddai estyniad yn manteisio ar is-adeiledd TGCh o safon, ynghyd ag offer clyweled modern. Argymhellir cynnwys adnewyddu'r offer clyweled drwy'r ysgol i gyrraedd y safonau digidol.<br>https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg<br><br>Mae'r offer rhwydwaith yn yr ysgolion hyn wedi ei leoli mewn storfa, felly nid yw'n amharu ar staff na disgyblion o ran sŵn. Byddai angen gofod mewn unrhyw estyniad ar gyfer offer rhwydwaith ychwanegol.<br><br>Mae'r ceblau ethernet yn yr ysgolion hyn i safon Cat5e. Argymhellir un ai ail-geblo Ysgol y Graig i CAT6A neu o leiaf ychwanegu pwyntiau CAT6A ym mhob dosbarth ar gyfer y pwyntiau di-wifr oherwydd capasiti ychwanegol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Byddai rhaid plethu unrhyw ddatblygiad neu newid yng nghyfansoddiad / strwythur ysgolion i mewn i'r cynllun HWB sydd yn grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn ysgolion.<br><br>Mae moderneiddio technoleg ysgolion yn gostus oherwydd yr angen i ychwanegu ceblau ar gyfer systemau (mynediad drysau, CCTV, ffonau VOIP), argymhellir ystyried yr angen am dechnolegau moderneiddio fel hyn yn rhan o unrhyw gynllun. |
| **7** | **Caffael** | Bydd y gwaith yn cael ei gaffael drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. |
| **8** | **Sgriwtini** | Cafodd y cynnig ei drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2020 a penderfynwyd byddai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai barhau â'r cynnig gwreiddiol fel y ffordd mwyaf priodol ymlaen. Yn y bleidlais a ddilynodd, cariwyd y cynnig o 8 pleidlais i 2. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Gwrthwynebu |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018)<br><br>Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Môn (diwygiedig) – Hydref 2018<br><br>Dogfen Cyflawni'r Cyngor Sir - 2019/20 a 20/22<br><br>Llythyr gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 7 Mai 2020 yn rhoi estyniad tan 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig.<br><br>Dogfen gan Lywodraeth Cymru - Diweddariad Addysg Covid-19 - **Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws** (diweddarwyd 8 Ionawr 2021) (oedd yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19)).<br><br>Cofnodion y Pwyllgor Gwaith - 17 Rhagfyr 2020.<br><br>Cofnodion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 10 Rhagfyr 2020. |

**ATODIAD 1**

**Adroddiad Gwrthwynebu – Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**

## 1. Cefndir

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

> **Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 18 Ionawr 2021 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod yn dilyn i wrthwynebu'r cynnig. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 15 Chwefror 2021. **Derbyniwyd cyfanswm o 46 gwrthwynebiad i'r cynnig.**

**Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau**

Derbyniodd y Cyngor 46 o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig gan groesdoriad o randdeiliaid e.e. rhieni, trigolion, llywodraethwyr, cyn-ddisgyblion, staff yr ysgol a mudiadau cenedlaethol a lleol. Roedd amryw o'r ymatebion yn cynnwys mwy nag un rheswm dros wrthwynebu. Cafodd y rhesymau hyn eu categoreiddio fel a ganlyn a nodir y math o sylw a godwyd:

| Rhif | Categorïau'r Gwrthwynebiad | Nifer yn gwrthwynebu |
|---|---|---|
| 1. | Ar sail safonau yn Ysgol Talwrn<br>• Safonau / lefel dysgu yn Ysgol Talwrn yn uchel<br>• Ysgol Talwrn wedi rhoi addysg dda i blant | 27 |
| 2. | Oherwydd y pandemig<br>• Annheg gwneud newidiadau yng nghanol pandemig<br>• Rhieni methu cwrdd yn ystod y pandemig<br>• Pandemig yn rhoi fwy o straen ar y plant<br>• Oherwydd pellter cymdeithasol, bydd angen mwy o lefydd mewn ysgolion<br>• Haws i feirwsau drosglwyddo mewn ysgol fawr | 24 |
| 3. | Cwestiynu sail gwneud penderfyniadau cyfansoddiadol y Cyngor<br>• Dim digon o amser i randdeiliaid ddarllen y dogfennau<br>• Dim digon o amser i gynghorwyr ddarllen y dogfennau<br>• A yw'n iawn i Gynghorydd Sir fod yn llywodraethwr ac yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith?<br>• Oedd y bleidlais yn y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr 2020 yn ddilys? | 23 |
| 4. | Effaith posib ar y gymuned<br>• Byddai cau'r ysgol yn cael effaith ddrwg ar y gymuned<br>• Mae'r ysgol yn hanfodol i'r gymuned<br>• Effaith posib ar gostau tai | 17 |
| 5 | Cyhuddiad nad yw'r Cyngor yn gwrando<br>• Nid yw'r Cyngor yn gwrando ar safbwyntiau'r rhanddeiliaid<br>• A yw pob opsiwn wedi ei ystyried?<br>• Mae'r Cyngor yn gwrthod pob dadl o blaid cadw'r ysgol ar agor | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Effaith posib ar y Iaith Gymraeg<br>• Gallai cau'r ysgol ddinistrio cymuned Gymraeg<br>• Mae pentref Talwrn angen ysgol er mwyn i'r Gymraeg barhau | 13 |
| 7. | Effaith y fath broses ar iechyd meddwl<br>• Y broses yn cael effaith ar iechyd meddwl staff, rhieni a plant<br>• Pwysau mawr ar iechyd meddwl plant a staff yn barod | 13 |
| 8. | Y teimlad fod Ysgol Talwrn cael ei thrin yn wahanol<br>• Pam cadw Ysgol Bodffordd ar agor ond cau Ysgol Talwrn<br>• Ysgolion bach eraill wedi goroesi, pam cau Talwrn? | 11 |
| 9. | Cwestiynu'r opsiwn o ffedereiddio<br>• Pam ddim ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch?<br>• Mae'r Cyngor wedi diystyru'r opsiwn o ffedereiddio | 10 |
| 10. | Effaith y cynnig ar Eisteddfod y pentref yn Nhalwrn<br>• Byddai cau Ysgol Talwrn yn golygu diwedd ar Eisteddfod y pentref | 9 |
| 11. | Effaith y cynnig ar y Cylch Meithrin<br>• Cwestiynu effaith cau Ysgol Talwrn ar y Cylch Meithrin<br>• Anghytuno gyda chywirdeb niferoedd y Cylch yn yr adroddiad ymgynghoriad | 8 |
| 12. | Diogelwch cludiant / lonydd cysylltiedig<br>• Sefyllfa parcio a thraffig o gwmpas Ysgol y Graig yn ddrwg rŵan<br>• Annheg disgwyl i blant fynd o Dalwrn i Langefni ar droed neu feic neu ar fws<br>• Afresymol i orfodi plant bach i gerdded i Ysgol y Graig | 8 |
| 13. | Hawliau dynol plant<br>• Heb eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. | 7 |
| 14. | Anghytuno gyda'r ffordd mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Ddeddf Llesiant yn yr Asesiad Effaith o'r cynnig. | 4 |
| 15. | Yr angen i ystyried yr opsiynau efo meddwl agored<br>• Dim newid ers 2019 yn y cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) | 4 |
| 16. | Cost arfaethedig y cynllun<br>• Anghytuno gyda'r ffigurau<br>• Ydi'r cynllun yn fforddiadwy? | 2 |
| 17. | Ymateb y Cyngor<br>• Safbwynt y Cyngor ynteu swyddogion? | 1 |
| 18. | Maint dosbarthiadau<br>• Rhy fawr yn yr ysgol ehangedig newydd? | 1 |
| 19. | Maint yr ysgol ehangedig<br>• Ydi hi ddigon mawr?<br>• Fydd hi'n llenwi'n gyflym? | 1 |
| 20. | Safle Ysgol Talwrn<br>• Pwy sy'n berchen ar y safle?<br>• Ai eiddo ar brydles neu eiddo rhyddfraint sydd? | 1 |

Yn unol ag adran 49 o’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae’n rhaid i gynigwyr sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb i’r gwrthwynebiadau hynny (“yr adroddiad gwrthwynebu”) – sef y ddogfen hon.

**Gweler yn y tabl isod, grynodeb o’r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau hynny.**

| | Crynodeb o’r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **1.** | Safonau yn Ysgol Talwrn<br>• Safonau / lefel dysgu yn Ysgol Talwrn yn uchel<br>• Ysgol Talwrn wedi rhoi addysg dda i blant | Er bod Ysgol Talwrn yn perfformio’n dda ar hyn o bryd, mae risg y gallai hyn fod yn anodd i’w gynnal yn y tymor hir mewn ysgol fechan o’r maint hwn. Bydd y cynnig yn darparu adeilad fydd yn cwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac yn adeilad ag ansawdd arbennig i’r plant ddysgu ynddo. Byddai hefyd yn her i Ysgol Talwrn allu diwallu anghenion y cwricwlwm newydd i Gymru, oherwydd adeilad yr ysgol a’r ychydig gyfleusterau sydd yno ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.<br><br>Mae nifer gyfyngedig o staff mewn ysgol fechan yn gallu golygu bod diffyg amrywiaeth o ran y cwricwlwm i gymharu gydag ysgol fwy, ynghyd â llai o gyfleoedd i gael amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol. Gall oedrannau cymysg mewn ysgolion llai fod yn her o ran darparu ar eu cyfer ac hefyd anodd i drefnu dosbarthiadau o feintiau sy’n gost effeithiol (h.y. meintiau dosbarthiadau sy’n agos i 30). Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgolion, sy’n golygu nad oes digon o gyllid yn weddill i ariannu agweddau eraill, fel penodi staff arbenigol i roi anogaeth a gofal bugeiliol. Yn ogystal, mae’n anochel y bydd gan arweinyddion ysgolion lai o amser ar gyfer arwain oherwydd eu hymrwymiad addysgu penodol.<br><br>Yn ogystal, nodir manteision y cynnig isod:<br>• Ni fyddai uno yn cael effaith negyddol ar safonau.<br>• Byddai uno yn gwneud defnydd gwell o adnoddau’r Cyngor ac yn unioni cost y pen.<br>• Byddai uno’r ddwy ysgol yn gallu creu’r amodau i’r Pennaeth gael amser digyswllt digonol ar gyfer arweinyddiaeth.<br><br>Byddai dod â’r ddwy ysgol ynghyd yn rhoi sylw i’r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ac yn darparu adnodd 21ain Ganrif ar gyfer defnyddwyr yr ysgol heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.<br><br>Fel rhan o’r broses ymgynghori, anfonwyd yr holl ddogfennaeth ymgynghori at Estyn, yn unol â’r drefn. Dywedodd Estyn (rhan 5.8 o’r ddogfen ymgynghori): “Darparodd y cynigiwr **wybodaeth ddefnyddiol a manwl** sy’n egluro’r rhesymeg y tu ôl i’w gynnig. Mae Estyn o’r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o leiaf yn nhermau addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer plant yn yr ardal.”<br><br>Mae’r ddwy ysgol yn y categori ‘A’ gwyrdd o ran anghenion cymorth, yn unol â’r diffiniadau yn y model cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Bu Ysgol Y Graig yn y categori hwn yn gyson ers Medi 2015, ac Ysgol Talwrn ers Medi 2019. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Barnwyd fod gan y ddwy ysgol ddeilliannau 'da' ym mhob maes arolygu gan Estyn:<br><br>Ysgol Talwrn – Hydref 2018<br><br>Ysgol y Graig – Ionawr 2019<br><br>Ar y cyfan, mae safonau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn gyson dda. Wrth ystyried nifer o ffynonellau, mae perfformiad y ddwy ysgol yn gyson, yn gyffredinol."<br><br>Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi yn ymateb Estyn yr oedd angen i'r Cyngor ymateb iddynt neu eu hegluro. Yn ogystal bydd gan yr ysgol ehangedig ystod oedran o 3-11 yn hytrach na 4-11, sydd yn golygu y bydd cyfleusterau gofal <u>ar y safle, ar gael i fwy o blant</u> o'r ardal na'r sefyllfa bresennol. Bydd hyn yn rhyddhau'r faich cyn ysgol oddi ar rieni ac yn eu galluogi i gael mwy o gyfleoedd gwaith.<br><br>**Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddiad Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir oherwydd bydd y cynnig yn darparu adeilad fydd yn cwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif ac yn adeilad o ansawdd arbennig i blant ddysgu ynddo.** |
| **2.** | Pandemig<br>• Annheg gwneud newidiadau yng nghanol pandemig<br>• Rhieni methu cwrdd yn ystod y pandemig<br>• Pandemig yn rhoi fwy o straen ar y plant<br>• Oherwydd pellter cymdeithasol, bydd angen mwy o lefydd mewn ysgolion<br>• Haws i feirwsau drosglwyddo mewn ysgol fawr | Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn gyfnod anodd parthed ymateb i'r pandemig ac yn deall bod amryw o safbwyntiau yn bodoli ynglŷn a'r hyn sydd yn gywir neu pheidio.<br><br>Yn wir, gyda hynny mewn cof credir ei bod yn bwysig nodi mai'r bwriad gwreiddiol oedd gwneud y penderfyniad ar y cynnig ym mis Mehefin 2020 ond, oherwydd ystyriaeth y Cyngor am y gweithlu, trigolion a phlant Ynys Môn, **gohirwyd hyn oherwydd y pandemig**. Mae ymateb i'r argyfwng a chadw pobl Ynys Môn yn ddiogel yn parhau i fod wrth wraidd gwaith swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn o ddydd i ddydd ac o'r herwydd, cafodd nifer o brosiectau pwysig - gan gynnwys moderneiddio ysgolion - eu hatal. Ond nid oedd modd gohirio'r broses am byth - yn enwedig gan na wyddys tan pryd bydd y pandemig yn parhau.<br><br>Fe gaeodd adeiladau ysgolion ledled Cymru ar ddiwedd y diwrnod ysgol ar 20 Mawrth 2020. Ychydig cyn i blant ddychwelyd i'r ysgol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar 25 Mehefin 2020, sef "Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2020". Roedd yr hysbysiad yn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob adeilad ysgol ar agor ar gyfer addysg. Roedd yn addasu, dros dro, adran 3.4 o'r Cod mewn perthynas â'r ddogfen ymgynghori, ac adran 4.1 o'r Cod mewn perthynas â sut y cyhoeddir yr hysbysiad statudol, fel bod y cyfeiriadau at "diwrnod ysgol" yn cynnwys diwrnodau pan fyddai sesiwn ysgol wedi'i chynnal pe na bai cyfyngiad ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol mewn cysylltiad â'r coronafeirws. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi bod rhaid cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a **rhaid** cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi. Mewn geiriau eraill, rhaid cyhoeddi'r rhybudd statudol o fewn 26 wythnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad statudol sef erbyn 18 Medi 2020. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a chan ystyried diogelwch plant a thrigolion Môn, ni fu hyn yn bosibl. Yn yr achos hwnnw, mae'r Cod yn nodi yn rhan 3.6: "**Rhaid** gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad." Felly, cyflwynodd swyddogion y Cyngor gais am estyniad i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd hyn a rhoddwyd tan 19 Mawrth 2021 i Gyngor Sir Ynys Môn gyhoeddi'r Rhybudd Statudol.<br><br>Ymhellach i hynny cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 4 Ionawr 2021 y "dylai pob ysgol, coleg ac ysgol annibynnol symud i ddysgu ar-lein tan o leiaf Ionawr 18." Mae'r cyfnod hwn wedi ei ymestyn ers hynny. Ychydig o ddiwrnodau yn ddiweddarch, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn wedi'i ddiweddaru o **Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws** (diweddarwyd 8 Ionawr 2021) oedd yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19).<br><br>Dywed Rhan 6 o'r ddogfen: "Mae'r **hysbysiad yn addasu paragraff 4.1 o'r Cod dros dro** fel bydd unrhyw gyfeiriadau at "ddiwrnod ysgol" yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi'i chynnal pe na bai cyfyngiad ar ddisgyblion rhag dod i'r ysgol mewn perthynas â'r coronafeirws".<br><br>Mewn geiriau eraill, er bod yr ysgolion dan sylw yn cynnig addysg o bell i'r disgyblion yn ogystal â chynnig addysg wyneb yn wyneb ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr allweddol ar hyn o bryd, mae'r 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig, sef y cyfnod gwrthwynebu, yn parhau i fod yn ddilys. Cadarnhawyd hyn ymhellach mewn diweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2021.<br><br>Mae'r Cyngor eisiau buddsoddi yn nyfodol plant a phobl ifanc Ynys Môn. Fel rhan o'r rhaglen hon, rhaid i ni sicrhau bod plant yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer y 21ain Ganrif, adeiladau sydd yn y lle iawn, sy'n bodloni anghenion disgyblion a staff, sy'n helpu i hyrwyddo safonau uchel ac sy'n amddiffyn yr Iaith Gymraeg.<br><br>Cydnabyddir ei bod hi'n anodd iawn cwrdd i drafod unrhyw fater wyneb yn wyneb ond mae'r Cyngor a nifer o sefydliadau wedi goresgyn y broblem hon drwy gynnal cyfarfodydd sy'n defnyddio fideo-gynadledda neu telegynadledda. Mae'r Cyngor yn deall rhwystredigaeth rhanddeiliaid oherwydd y sefyllfa efo'r pandemig. Er hynny, roedd nifer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r cynnig (yn ystod cyfnod clo), sef 46, yn uwch na'r nifer dderbyniwyd yn y gorffennol.  Yn ogystal, derbyniwyd mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2020 (57 ymateb) nag yn 2018 (52 ymateb). Gellid dadlau felly bod mwy o ymatebion a gwrthwynebiadau wedi eu derbyn yng nghanol cyfnod clo nag yn y cyfnod cyn y pandemig. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, cydnabyddir bod colli addysg yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant a phobl ifanc ac mae bod yn yr ysgol yn hanfodol i addysg a lles plant a phobl ifanc. Er mwyn helpu lleddfu straen i ddisgyblion yn ystod cyfnod y pandemig, mae'r Awdurdod mewn cydweithrediad efo'r ysgolion, wedi sicrhau bod lleoliadau addysg a gofal plant yn parhau i weithredu gyda chyn lleied o darfu â phosibl yn ystod brigiad o achosion o COVID-19. Mae sicrhau lles a llesiant pawb wedi bod yn flaenoriaeth, yn enwedig ein plant ifanc, gydag ysgolion yn ymgysylltu gyda dysgwyr ac yn cefnogi lle bo'n briodol. Yn ystod cyfnodau clo, bu i'r Awdurdod, mewn cydweithrediad â'r ysgolion, barhau i gynnig darpariaeth addysg mewn ysgolion i blant sy'n agored i niwed er mwyn diogelu eu lles, ac i blant gweithwyr hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau i weithredu.<br><br>**Mae'r Cyngor o ganlyniad yn credu ei fod wedi bod yn ystyriol a sensitif yn y ffordd mae wedi ymdrin â'r cyfnod clo ac wedi rhoi cyfle ac amser digonol i randdeiliaid ymateb er gwaetha'r sefyllfa o ran pandemig COVID-19.**<br><br>Mae'r achosion o COVID-19 a gafwyd yn ysgolion cynradd Môn, wedi dangos y gall achos mewn ysgol fechan olygu bod y rhan fwyaf, os nad yr holl ddisgyblion, yn gorfod hunan-ynysu.<br><br>Noder felly bod mwy o risg i ysgol fechan orfod cau yn ei chyfanrwydd wrth ddelio gyda feirwsau rŵan ac i'r dyfodol a gall hyn amharu ar addysg wyneb yn wyneb ar gyferholl ddisgyblion yr ysgol, ac amharu ar eu cyswllt cymdeithasol. Mewn ysgol fwy, dim ond disgyblion yn yr un dosbarth a'r disgybl sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 fyddai angen hunan ynysu. Byddai dysgu wyneb yn wyneb yn parhau ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion yn yr ysgol honno.<br><br>**Mae'r achosion hyn yn amlygu fod y risg i ysgol gynradd fechan orfod cau oherwydd achos o feirws tebyg i COVID-19 i'r dyfodol yn fwy nag y byddai i ysgol gynradd mwy o faint a all greu'r amodau ar gyfer lleihau'r perygl o drosglwyddiad ehangach.** |
| **3.** | Cwestiynu sail gwneud penderfyniadau cyfansoddiadol y Cyngor h.y.<br>• Dim digon o amser i randdeiliaid ddarllen y dogfennau<br>• Dim digon o amser i gynghorwyr ddarllen y dogfennau<br>• A yw'n iawn i Gynghorydd Sir fod yn | Yn rhan 8.3.2 o gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, nodir y dylid cyhoeddi rhybudd o gyfarfod "o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod". Cafodd yr adroddiad ymgynghoriad ei gyhoeddi ar 4 Rhagfyr 2020 sydd dros 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2020 ac sy'n unol â phwynt 8.3.2 yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Ar ôl ystyried y mater yn ofalus a'i drafod, penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gefnogi'r cynnig gyda mwyafrif o 8 i 2.<br><br>Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn nodi y dylai'r papurau fod yn gyhoeddus o leiaf 3 diwrnod cyn cyfarfod o'r Pwyllgor perthnasol. Roedd y papurau ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gyhoeddus 4 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2020. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ymgynghoriad, cafodd rhanddeilliaid wybod yn syth ar 11 Rhagfyr 2020 bod yr adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | llywodraethwr ac yn aelod o'r pwyllgor Gwaith?<br>• Oedd y bleidlais yn y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr 2020 yn ddilys? | Yn yr un modd, cafodd yr adroddiad ymgynghoriad ei gyhoeddi ar gyfer y Pwyllgor Gwaith ar 11 Rhagfyr 2020 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith oedd yn cyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020. Roedd hyn hefyd yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Ar ôl ystyried y mater yn ofalus a'i drafod, penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith i gefnogi'r cynnig yn unfrydol.<br><br>Dim ond un eitem oedd ar agenda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i'r cynnig gan aelodau'r Pwyllgor hwnnw.<br><br>Ar gyfer y cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2020, roedd 132 tudalen yn y pecyn adroddiad ac roedd 184 tudalen yn y pecyn ar gyfer y cyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020.<br><br>Roedd hyn yn cymharu gyda 232 tudalen yn y pecyn ar gyfer cyfarfod 11 Medi 2019.<br><br>**O ystyried y pwyntiau uchod, credir bod aelodau'r Pwyllgorau (Sgriwtini Corfforaethol a Gwaith) wedi cael mwy na'r amser angenrheidiol a nodir yn y cyfansoddiad i ddarllen y ddogfennaeth ac i ystyried y cynnwys yn ofalus.**<br><br>Nid yw'r Cynghorydd dan sylw yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>Yn unol â'r Cyfansoddiad, fe ddatganodd y Cynghorydd dan sylw yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2020 ei bod hi'n aelod o gorff llywodraethu Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Gweler y ddolen: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListDeclarationsOfInterest.aspx?UID=268&LLL=1<br><br>Mae'r Cynghorydd dan sylw wedi ei hapwyntio fel llywodraethwr i'r ddwy ysgol ar ran y Cyngor Sir: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=268&LLL=1<br><br>Nid yw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gwneud penderfyniadau gan mai corff ymgynghorol yw'r Pwyllgor. Y Pwyllgor Gwaith wnaeth y penderfyniad ac nid yw'r Cynghorydd dan sylw yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw.<br><br>Yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn, dylai unrhyw lywodraethwr a benodwyd gan y Cyngor, ddatgan diddordeb personol pan fo mater yn ymwneud â'r ysgol honno yn mynd gerbron un o bwyllgorau Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag mae'r Cod yn atal y diddordeb rhag bod yn un rhagfarnus dim ond os yw'r mater o dan ystyriaeth yn fater rheoliadol (regulatory matter) – nid yw moderneiddio ysgolion yn fater rheoliadol.<br><br>Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r adborth a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Sgriwtini, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi'r cynnig yn unfrydol. Roedd y swyddogion a oedd yn monitro'r cyfarfod yn fodlon a'r ffordd yr ymdrinwyd â'r mater. |

<table>
<tr><th></th><th>Crynodeb o’r gwrthwynebiadau</th><th>Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>I grynhoi, nid yw’r Cyngorydd dan sylw yn aelod o’r Pwyllgor Gwaith ac o ganlyniad nid oedd gan y Cynghorydd bleidlais yn y penderfyniad a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr, 2020.</td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Effaith posib ar y gymuned<br>• Byddai cau’r ysgol yn cael effaith ddrwg ar y gymuned<br>• Mae’r ysgol yn hanfodol i’r gymuned<br>• Effaith posib ar brisiau tai</td><td>Os gweithredir y cynnig, gallai grwpiau cymunedol barhau i weithio gyda phlant o bentref Talwrn. Mae adran 4.8 o’r Asesiad Effaith yn nodi: “Gellir ymgymryd â chyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol yn Nhalwrn yn yr Ysgol y Graig ehangedig, neu o safleoedd eraill yn Nhalwrn megis neuadd y pentref neu eglwys Talwrn.” Byddai hyn yn wir yn yr achos hwn. Cafodd effaith bosib y cynnig ar y gymuned ei hasesu a daethpwyd i’r casgliad ei bod yn ymddangos mai effaith niwtral fyddai’r cynnig yn ei gael ar y gymuned ar ôl ystyried y materion canlynol:
<table>
<tr><th>Meini Prawf</th><th>Effaith</th></tr>
<tr><td>Disgyblion sy’n mynychu’r ysgol o du allan i’r dalgylch</td><td>Cadarnhaol</td></tr>
<tr><td>Gwasanaethau a ddarperir i’r gymuned gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol</td><td>Niwtral</td></tr>
<tr><td>Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</td><td>Niwtral</td></tr>
<tr><td>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol</td><td>Niwtral</td></tr>
<tr><td>Effeithiau eraill<br>Cludiant + cyhoedd</td><td>Negyddol</td></tr>
<tr><td>Arall<br>Effaith ar y gymuned</td><td>Niwtral</td></tr>
<tr><td>Pryderon a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol</td><td>Niwtral</td></tr>
<tr><td></td><td>Niwtral</td></tr>
</table>
Nodwyd yn yr Asesiad Effaith y gallai “cau Ysgol Talwrn gael effaith ar ba mor ddeniadol yw’r ardal leol i ddarpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â phlant neu sy’n bwriadu cael plant. Ar y llaw arall, gallai trigolion lleol ystyried cau neu adleoli ysgol i ffwrdd o’r ardal i fod yn beth defnyddiol a gwneud yr ardal fod yn fwy deniadol i brynwyr tai sy’n edrych am ardal fwy tawel.”<br>Felly, cafodd y posibilrwydd y gallai cau Ysgol Talwrn effeithio ar pa mor ddeniadol yw’r pentref i fuddsoddi ynddo ei ystyried yn yr Asesiad Effaith. Yn ogystal, roedd yr Asesiad Effaith yn nodi mai niwtral fyddai effaith y cynnig ar y gymuned.</td></tr>
</table>

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **5.** | Cyhuddiad bod y Cyngor ddim yn gwrando<br>• Nid yw'r Cyngor yn gwrando ar safbwyntiau'r rhanddeiliaid<br>• A yw pob opsiwn wedi ei ystyried?<br>• Mae'r Cyngor yn gwrthod pob dadl o blaid cadw'r ysgol ar agor | Ym mhapur cynnig gwreiddiol y Cyngor wrth baratoi tuag at ymgynghori ar y cynnig arfaethedig fe ystyriwyd 10 o opsiynau ar gyfer cadw Ysgol Talwrn ar agor. Gwerthuswyd yr opsiynau hyn erbyn meini prawf penodol (gweler isod).<br><br>Yn ychwanegol, yn yr adroddiad ymgynghoriad, cafodd 12 o opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn eu hystyried a'u hasesu ymhellach. Nodir yr opsiynau hynny fel a ganlyn:<br><br>1. **Buddsoddi yn Ysgol Talwrn** i ddod â hi i safon Ysgolion 21ain Ganrif<br>2. Agor ysgol ardal newydd i Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth<br>3. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir er mwyn lliniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)<br>**4. Gadael Ysgol Talwrn fel y mae**<br>**5. Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn**<br>**6. Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth**<br>7. Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti<br>**8. Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn**<br>9. **Ffedereiddio Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch** ac ymestyn Ysgol Y Graig.<br>10. Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a ffedereiddio gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd<br>11. **Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor**, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran ffedereiddio yn nes ymlaen.<br>12. Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.<br><br>Cafodd yr holl opsiynau eu hystyried a'u gwerthuso yn yr adroddiad ymgynghoriad yn erbyn y gyrwyr allweddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion sef:<br><br>▪ Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog pob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.<br>▪ Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o du mewn ac o du allan i'r dalgylch os oes modd.<br>▪ Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | ▪ Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.<br>▪ Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.<br>▪ Bydd angen o leiaf cynnal y **ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.<br>▪ Mae angen cynnal y **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.<br><br>Gwerthuswyd yr opsiynau hyn ar sail gwybodaeth gan swyddogion e.e. cyflwr adeilad yr ysgol, costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol, safonau addysg. Wrth gymeradwyo'r adroddiad ymgynghoriad a oedd yn cynnwys yr opsiynau hyn, daeth yn farn y Pwyllgor Gwaith sydd yn gweithredu ar ran y Cyngor.<br><br>Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.<br><br>**Derbynnir bod amryw o safbwyntiau gwahanol yn bodoli wrth drin a thrafod unrhyw fath o 'newid'. Mae'r Cyngor wedi dangos, drwy'r broses statudol, ei fod wedi gwrando ac wedi ystyried y safbwyntiau hynny drwy'r adroddiad ymgynghoriad a'r adroddiad gwrthwynebu hwn.**<br><br>**Mae'r Cyngor o'r farn hefyd ei fod wedi ystyried opsiynau i gadw Ysgol Talwrn ar agor ac wedi eu gwerthuso yn erbyn meini prawf priodol, a oedd yn cynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan randdeiliaid, ac opsiynau eraill yn ofalus, yn gyson ac yn drylwyr iawn.** |
| **6.** | Effaith ar yr Iaith Gymraeg<br>• All cau'r ysgol ddinistrio cymuned Gymraeg<br>• Mae pentref Talwrn angen ysgol er mwyn i'r Gymraeg barhau | Pwysig yw nodi yma fod yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn ddeublyg – h.y. ar blant a theuluoedd yr ysgol ehangedig ac ar y gymuned yn Nhalwrn.<br><br>Wrth ystyried yr effaith ar blant a theuluoedd yr ysgol ehangedig, mae data Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu CYBLD 2020 yn amlygu bod canran y disgyblion sy'n siarad y Gymraeg yn rhugl yn y cartref yn uwch yn Ysgol Y Graig (72%) nag ydyw yn Ysgol Talwrn (40%) sydd efallai yn gosod cyfle i'r iaith ffynnu ymysg y plant fydd yn symud o Dalwrn drwy fwy o ddefnydd gydag ystod ehangach o blant.<br><br>O ran y Gymraeg fel pwnc, nid oes gwahaniaeth clir rhwng cyflawniadau disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig rhwng 2015 a 2019.<br><br>Ar dudalen 21 o'r Asesiad Effaith oedd ynghlwm i'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd yn adran 3.5.6:<br><br>*"Bydd yr ysgol ehangedig arfaethedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog."* |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Felly, os gweithredir y cynnig, cyfrifoldeb y tîm arweinyddiaeth yn yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig fydd hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y disgyblion yn ystod oriau'r ysgol. Byddai'r Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol, yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod. |

Wrth ystyried yr effaith ar y gymuned - mae'r tabl isod yn rhoi data am yr iaith Gymraeg ar gyfer poblogaeth wardiau Llangefni a Llanddyfnan:

| | **Canran y boblogaeth 3 oed a throsodd:** | | |
|---|---|---|---|
| **Ardal** | **Sydd dim ond yn deall Cymraeg llafar** | **Sydd yn gallu siarad Cymraeg** | **Sydd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** |
| Cefni | 5.8% | 80.5% | 70.0% |
| Cyngar | 5.6% | 80.8% | 69.1% |
| Llanddyfnan (y ward lle lleolir Ysgol Talwrn) | 6.8% | 64.7% | 55.9% |
| Tudur (y ward lle lleolir Ysgol y Graig) | 6.5% | 75.8% | 64.3% |
| Ynys Môn | 10.9% | 56.1% | 44.2% |
| Cymru | 5.3% | 18.6% | 14.1% |

***Ffigurau Cyfrifiad 2011**

Gwelir bod canran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn wardiau Llangefni nag sydd yn ward Llanddyfnan lle lleolir Ysgol Talwrn.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn deall pryderon rhanddeiliaid am effaith y fath gynnig ar y Gymraeg yng nghymuned Talwrn ac yn wir ar ôl derbyn adborth gan randdeiliaid, cytunwyd y byddai'r Asesiad Effaith o'r cynnig (a oedd yn asesiad o effaith posib y cynnig ar y gymuned, yr iaith **Gymraeg** a chydraddoldeb) yn ddogfen fyw. Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai effaith bosib y cynnig yn cael ei hasesu drwy gydol y prosiect nes i'r cynnig gael ei wireddu. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ymgymryd â mesurau lliniaru pe byddai'r risg uchod yn dwyn ffrwyth. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio â chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi os caiff y cynnig yn cael ei gymeradwyo a phe byddai'r ysgol yn cau.

Cyn y cyfnod clo, cychwynnodd swyddogion y Cyngor ar brosiect i hyrwyddo iaith lafar Gymraeg yn siopau tref Llangefni. Oherwydd sefyllfa'r pandemig, bu'n rhaid gohirio'r prosiect. Er hynny, mae'r prosiect hwn yn enghraifft o brosiect y byddai'r Cyngor yn ei hybu a'i gefnogi wrth barhau i roi ei Strategaeth Iaith a'r Siarter Iaith ar waith gyda chymuendau ym Môn er mwyn sicrhau fod yr iaith yn parhau ac yn tyfu mewn cymunedau tebyg i Dalwrn.

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | **Casgliad yr Asesiad Effaith o ran yr iaith Gymraeg, a oedd yn asesu effaith posib y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned, oedd y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith yn ddogfen fyw a bydd hyn yn ffordd o liniaru pryderon rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect.**<br><br>Gweler pwynt 10 ac ymateb y Cyngor i effaith posib y cynnig ar Eisteddfod Talwrn. |
| **7.** | Effaith y fath broses ar iechyd meddwl<br>• Y broses yn cael effaith ar iechyd meddwl staff, rhieni a plant<br>• Pwysau mawr ar iechyd meddwl plant a staff yn barod | Mae'r cyfnod clo wedi bod yn heriol i bawb ac mae'r Cyngor yn cydnabod hynny.<br><br>Cydnabyddir hefyd y gwaith da gan holl staff ysgolion mewn cydweithrediad a'r Awdurdod Addysg i helpu'r plant drwy'r cyfnod hwn.<br><br>Noder bod swyddogion Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth, cyngor, a chefnogaeth i holl staff ysgolion drwy'r cyfnod hwn, fel mae nhw wedi bod ar bob adeg arall. Er enghraifft, mae cwrs Lles Meddyliol yn y Gwaith ar gael sy'n helpu staff a allai wynebu problem iechyd meddwl neu broblem lles yn y gweithle. |
| **8.** | Y teimlad fod Ysgol Talwrn cael ei thrin yn wahanol<br>• Pam cadw Ysgol Bodffordd ar agor ond cau Ysgol Talwrn<br>• Ysgolion bach eraill wedi goroesi, pam cau Talwrn? | Mae'r Cyngor yn deall y rhesymeg pam mae gan rai ymdeimlad fod yr Ysgol wedi ei thrin yn wahanol gan fod canlyniad y ddwy broses yn dod i gasgliad gwahanol. Roedd y rhesymau am hyn fel a ganlyn -<br><br>1. **Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol –** Mae'r gost ar gyfer Ysgol Talwrn (£447,500) ac ar gyfer Ysgol Bodffordd wedi cynyddu (£252,000). (ffigurau Ionawr 2021)<br><br>2. **Adeilad a Lleoliad Ysgol -** Byddai'n anodd datblygu Ysgol Talwrn yn y dyfodol oherwydd bod mynediad gwael i'r safle (lon gul hefo dim llawer o lefydd pasio), a dim lle chwarae gwyrdd.<br>Arwynebedd allanol Ysgol Bodffordd – 2,578 $m^2$<br>Arwynebedd allanol Ysgol Talwrn – 1,730 $m^2$ (Caled yn unig)<br><br>3. **Costau Trafnidiaeth –** Fe fyddai'r costau rhagamcanol ar gyfer cludo disgyblion o Fodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd (£70k) yn uwch na'r costau rhagamcanol ar gyfer cludo disgyblion o Dalwrn i Ysgol Y Graig (£30k).<br><br>Roedd y ffigwr ar gyfer Bodffordd – Corn Hir wedi ei seilio ar 2 fws am £35k y bws (amcan gan yr adran Drafnidiaeth).<br><br>Mae'r ffigwr ar gyfer Talwrn – Y Graig wedi ei selio ar 1 bws am £30k y bws (amcan gan yr adran Drafnidiaeth).<br><br>Sylwer felly bod y ffigwr fesul bws yn uwch ar gyfer Bodffordd, oherwydd diffyg lle troi rownd ar hyd y daith. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | 4. **Cost y pen –** Ysgol Talwrn (£4,553 – 2019/20) yn uwch nag yn Ysgol Bodffordd (£4,274 – 2019/20). Cyfartlaedd Cynradd Môn yw £3,988 yn 2019/20.<br><br>Er bod ffigwr cost y pen Ysgol Bodffordd yn uwch na'r cyfartaledd, mae'r ffigwr yn cymharu'n ffafriol o'i gymharu gydag ysgolion gwledig eraill. Yn 2019/20 roedd cost y pen Ysgol Bodffordd y 4ydd isaf o'r 17 ysgol ym Môn sydd wedi eu hadnabod yn ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>**Dyraniad (Cyllideb)** - Mae ysgolion yn derbyn eu dyraniad cyllideb drwy fformiwla cyllideb ddatganoledig ysgolion. Mae elfennau o'r fformiwla yn amddiffyn ysgolion bach, er enghraifft, drwy sicrhau cyllido lleiafswm o 1.5 athro i ysgolion gyda llai na 16 disgybl, neu 2 athro ar gyfer ysgolion sydd â rhwng 16 a 38 o ddisgyblion. Mae hyn yn lleihau'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer gweddill ysgolion Môn.<br><br>Mae yna hefyd elfennau sefydlog o fewn y fformiwla cyllido ysgolion, lle mae'r swm mae pob ysgol yn ei derbyn / y nifer o athrawon sydd yn cael eu cyllido, yn gyson ymysg yr holl ysgolion. Mae'r swm hon yn cyfateb i ganran fwy o gyllideb ysgolion bach o gymharu ag ysgolion mwy. Gellid dadlau bod hyn yn anfanteisiol i'r ysgolion mwy, gan ei fod yn lleihau'r gyllideb sydd ar gael i'w dyrannu ar sail nifer disgyblion a'u hanghenion.<br><br>Mae rhan o'r gyllideb yn mynd tuag at gynnal a chadw adeilad yr ysgol. Po fwyaf o'r gyllideb gaiff ei gwario ar gynnal a chadw adeiladau, y lleiaf sydd ar ôl i'w ddyrannu ar sail disgyblion a'u hanghenion.<br><br>Mae 40% o gyllideb Ysgol Talwrn a 23% o gyllideb Ysgol Bodffordd yn cael ei ddyrannu ar sail ffactorau sydd yn:<br>Amddiffyn Ysgolion Bach<br>Ddyraniadau Sefydlog<br>Benodol i gynnal a rhedeg adeilad<br><br>5. **Lleoedd Ysgol –** Mae 18% o lefydd gweigion yn Ysgol Talwrn. Mae Ysgol Bodffordd ychydig dros ei chapasiti - Ffigurau CYBLD (PLASC) 2020 |

| Ysgol | Capasiti | Niferoedd PLASC 2020 | Llefydd Gweigion / (Dros Gapasiti) |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 66 | (3) |
| Talwrn | 49 | 40 | 9 |

<table>
<tr><th></th><th>Crynodeb o’r gwrthwynebiadau</th><th>Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>
6. All-dalgylch – Mae nifer o ddisgyblion all-dalgylch Ysgol Talwrn (67%) yn uwch na niferoedd all-dalgylch Ysgol Bodffordd (41%). Mae 33% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig – Hydref 2019.<br><br>
7. Cymraeg – Mae 85% o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn siarad Cymraeg gartref. 40% o ddisgyblion Ysgol Talwrn sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae’r ganran o blant o Ysgol Y Graig (72%) sydd yn siarad Cymraeg gartref yn uwch nag Ysgol Talwrn. Fe fydd disgyblion Ysgol Talwrn yn ymwneud â mwy o blant sy’n siarad Cymraeg wrth fynd i Ysgol y Graig.<br><br>
Disgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref:
<table>
<tr><th>Ysgol Bodffordd</th><th>Ysgol Corn Hir</th><th>Ysgol Talwrn</th><th>Ysgol Y Graig</th></tr>
<tr><td>85%</td><td>61%</td><td>40%</td><td>72%</td></tr>
</table>
O ganlyniad – gellid nodi er bod y casgliad yn wahanol ar gyfer y ddwy ysgol (Bodffordd a Talwrn) mae’r rhesymeg yn cael ei amlygu uchod ac o ganlyniad nodir nad yw Ysgol Talwrn wedi ei thrin yn wahanol i Ysgol Bodffordd.
</td></tr>
<tr><td>9.</td><td>Cwestiynu’r opsiwn o ffedereiddio<br>• Pam ddim ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch?<br>• Mae’r Cyngor wedi diystyru’r opsiwn o ffedereiddio</td><td>
Roedd y papur cynnig a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith yn Ionawr 2020, (er mwyn cael ei benderfyniad pa un ai i fwrw ymlaen â’r cyfnod ymgynghori statudol ai peidio) yn cydnabod ffedereiddio fel opsiwn perthnasol i’w hystyried. Yn yr un modd, roedd y ddogfen ymgynghori’n cynnwys ffedereiddio fel opsiwn perthnasol i’w ystyried.<br>
Yn yr adroddiad ymgynghoriad, yn ogystal â Ffederasiwn Cefni, cafodd 12 o opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn eu hystyried a’u hasesu ac roedd 5 ohonynt yn cynnwys ffedereiddio:<br><br>
1. Buddsoddi yn Ysgol Talwrn i ddod â hi i safon Ysgolion 21ain Ganrif<br>
2. Agor ysgol ardal newydd ar gyfer Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth<br>
3. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru’r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)<br>
4. Gadael Ysgol Talwrn fel y mae<br>
5. Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn (ffederasiwn)<br>
6. Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth (ffederasiwn)<br>
7. Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru’r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti
</td></tr>
</table>

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | 8. Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn<br>9. **Ffedereiddio** Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch ac ymestyn Ysgol Y Graig.<br>10. Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a **ffedereiddio** gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd<br>11. Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran **ffedereiddio** yn nes ymlaen.<br>12. Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.<br><br>Fodd bynnag, fel y rhestrwyd yn y ddogfen ymgynghori yn nhabl 5.2.11, roedd anfanteision y rhain yn gorbwyso'r manteision.<br>Er hynny, nid yw'r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffedereiddio, mae ganddo ffederasiwn ar waith yn Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Mae hyn yn dangos parodrwydd yr Awdurdod i ffurfio ffederasiynau, sef yn yr achos hwn, ffederasiwn Gwêl y Glannau.<br><br>Nid yw ffedereiddio Ysgol Talwrn ag unrhyw ysgol arall ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, sef:<br><br>1. Niferoedd disgyblion – **nid yw'n mynd i'r afael** â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig<br>2. Dim digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig/hir – byddai'n parhau **heb newid** o ganlyniad i ffedereiddio<br>3. Cost fesul disgybl - byddai arbedion bach iawn yn golygu y byddai'r gost fesul disgybl yn **parhau i fod yn uwch** na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn<br>4. Adeilad ysgol – mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £447,500 (2020) ynghyd â gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw adeilad Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – **byddai'r rhain yn parhau heb newid**<br>5. Safonau – fel ysgol fechan, gallai'r safonau cyfredol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor hir – byddai hyn yn parhau i fod yn wir<br>6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – ymrwymiad addysgu o 70% ar hyn o bryd – yn debygol o newid.<br>7. Cyllid - mae'n annhebygol y byddai unrhyw fân arbedion o ganlyniad i ffedereiddio yn ddigonol o ran cyfrannu at y gostyngiad y mae ar y Cyngor angen ei wneud i'w gyllideb<br><br>**Oherwydd y ffaith na fyddai ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag unrhyw ysgol arall yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn, nid oedd yn cael ei ystyried fel opsiwn realistig.** |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **10.** | Effaith y cynnig ar Eisteddfod y pentref yn Nhalwrn<br><br>• Byddai cau Ysgol Talwrn yn golygu diwedd ar Eisteddfod y pentref | Cafodd y posibilrwydd hwn ei asesu fel rhan o'r Asesiad Effaith a gyhoeddwyd gyda'r ddogfen ymgynghori ym mis Chwefror 2020. Roedd rhan 2.3.2 o'r Asesiad Effaith yn dweud: "*Gellid cynnal digwyddiadau a gynhelir yn Gymraeg fel Eisteddfod y pentref mewn lleoliadau eraill o fewn y gymuned, er engraifft neuadd y pentref".*<br><br>Dealla'r Cyngor fod eisteddfod y pentref yn cael ei chynnal yn neuadd y pentref. Os gweithredir y cynnig, gellid parhau i gynnal yr eisteddfod y pentref yno. Efallai bydd cyfle i ehangu'r Eisteddfod, e.e. Eisteddfod Talwrn a'r Graig.<br><br>Os yw'r gwrthwynebiad hwn yn seiliedig ar bryder y byddai nifer y plant ym mhentref Talwrn sy'n gallu cystadlu mewn eisteddfod yn lleihau, gellid goresgyn hynny efallai trwy gyd-weithio gydag Ysgol y Graig er mwyn apelio at y plant hynny sy'n mynychu Ysgol y Graig i gystadlu yn Eisteddfod Talwrn. Gallai hynny gynyddu'r nifer o blant a allai gystadlu ond hefyd gynyddu'r ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Eisteddfod yn lleol ymysg rhieni a staff ysgol gyfagos a fyddai o ganlyniad yn gyfle i sicrhau cynaliadwyedd yr Eisteddfod i'r dyfodol.<br><br>Mae data'r Cyngor yn dangos fod tua 27 o blant oed ysgol gynradd yn byw ym mhentref Talwrn ac mai 14 o'r rhain sydd yn mynychu Ysgol Talwrn tra bod **tua 280 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Ysgol y Graig.**<br><br>**Pe bai awydd i wireddu'r syniad hwn, byddai'r Cyngor yn awyddus iawn i gyd-weithio gyda'r ysgol ehangedig newydd a'r gymuned i wneud hynny. Byddai hyn yn gallu helpu i sicrhau cynaliadwyedd yr Eisteddfod i'r dyfodol**. |
| **11.** | Effaith y cynnig ar y Cylch Meithrin<br>• Cwestiynu effaith cau Ysgol Talwrn ar y Cylch Meithrin<br>• Anghytuno gyda chywirdeb niferoedd yn yr adroddiad ymgynghoriad | Roedd rhan 5.5 o'r ddogfen ymgynghori, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, yn trafod Cylch Meithrin Talwrn ac yn nodi'r canlynol: "Cynhelir **Cylch Meithrin Talwrn** yn neuadd bentref Talwrn 4 bore'r wythnos. Ei gapasiti yw 16 ac ym mis Medi 2019, roedd 5 o blant yn defnyddio'r cyfleuster. Nid oes darpariaeth feithrin yn Ysgol Talwrn." Yn ogystal, nodwyd pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai darpariaeth feithrin, yn ogystal ag uned gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol yn cael ei darparu yn Ysgol Y Graig fel gofal cofleidiol ar gyfer yr holl ddisgyblion.<br>Felly, amlinellwyd bwriad y Cyngor yn glir yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Er hynny, roedd rhai yn pryderu am staff yn y cylchoedd meithrin yn colli eu swyddi. Cydnabywyd hynny yn adran 4.4. o'r Asesiad Effaith: **"**Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth ym Meithrinfa Medra, Meithrinfa Sêr Bach a Dechrau'n Deg yn parhau pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu. Efallai y bydd y niferoedd sy'n mynychu Cylch Meithrin Stryd y Bont a'r Cylch Meithrin yn Neuadd Bentref Talwrn mewn perygl os bydd y cynnig yn mynd rhagddo."<br><br>Yn unol â nod yr Asesiad Effaith, cafodd risgiau fel yr un a grybwyllir eu hasesu a nodwyd mesurau i liniaru neu leihau eu heffaith.<br>Yn ychwanegol i'r uchod, roedd yr Asesiad Effaith yn adran 5.5 ar dudalen 16 yn trafod effaith bosibl y cynnig ar gyfleusterau gofal plant yn yr ardal. Nodwyd mai bwriad y cynnig, sef Ysgol y Graig ehangedig, yw ategu'r ddarpariaeth |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | bresennol o warchodwyr plant a meithrinfeydd dydd preifat yn yr ardal. Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gystadleuol â'r cyfraddau lleol a godir gan y darparwyr preifat a fydd yn rhoi dewis a digonolrwydd gofal plant yn yr ardal hon i rieni.<br><br>**O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon am effaith bosib y cynnig ar y Cylch Meithrin ym mhentref Talwrn ac yn cydnabod yr effaith bosib ar swyddi all godi os yw'r cynnig yn cael ei wireddu. Er hynny, bydd cyfleoedd am swyddi yn codi o'r ddarpariaeth gofal cofleidiol newydd os bydd y cynnig yn cael ei wireddu.** |
| **12.** | Diogelwch cludiant / lonydd cysylltiedig<br><br>• Sefyllfa parcio a thraffig o gwmpas Ysgol y Graig yn ddrwg rŵan<br>• Annheg disgwyl i blant fynd o Dalwrn i Langefni ar droed neu feic neu ar fws.<br>• Afresymol i orfodi plant bach i gerdded i Ysgol y Graig | Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd datblygu'r Uned Cyfnod Sylfaen ar y safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Dim ond trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol y gellir cyflawni hyn. Bydd angen i'r Cais Cynllunio am yr uned newydd ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. Os gweithredir y cynnig hwn, mae'n gyfle i liniaru'r pryderon hyn o ganlyniad i'r gwaith gwella arfaethedig.<br><br>Cynhelir Asesiad Effaith Traffig a bydd yn ffurfio rhan o'r Cais Cynllunio. Datblygir y cais gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Datblygir y cynllun hefyd mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.<br><br>Pan drafodwyd y cynnig gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith, cymeradwywyd y cynnig yn amodol ar gwblhau'r pwyntiau uchod.<br><br>Ym mis Hydref 2019, roedd 17% (7 disgybl) o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac roedd 31% o'r disgyblion (13 disgybl) yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig. O ganlyniad roedd yn rhesymol i gredu bod bron i 50% o blant ysgol Talwrn yn teithio ar hyd y B5109 yn ddyddiol. Bryd hynny, roedd 67% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i ddalgylch Ysgol Talwrn.<br><br>Ym mis Hydref 2020, roedd dros 60% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i'r dalgylch. O ystyried hyn, os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai llai o blant o bentref Talwrn yn teithio i'r ysgol ehangedig newydd na'r nifer o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn teithio i Ysgol Talwrn o du allan i'r dalgylch. Bydd llai yn teithio i bentref Talwrn o Langefni ar hyd y B5109 os caiff y cynnig yn cael ei gymeradwyo. Felly, byddai gwireddu'r cynnig yn golygu llai o deithio i rai ond yn cynyddu'r teithio i eraill ac felly, ni fyddai allyriadau carbon yn newid llawer. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r cynnig, yn unol â'r rhybudd statudol, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd ac sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Talwrn i'r Ysgol Y Graig ehangedig, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, yna gwneir trefniadau cludiant maes o law.<br><br>Ni fydd gorfodaeth ar blant bach i gerdded o bentref Talwrn i Ysgol y Graig os bydd y cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>**Felly, mae diogewlch plant yn rhan annatod o'r cynnig ac mae wedi cael ystyriaeth lawn gan swyddogion a chynghorwyr. Bydd diogelwch yn parhau i fod yn ystyriaeth hollbwysig os fydd y cynnig yn cael ei wireddu.** |
| **13.** | Hawliau dynol plant<br><br>• Heb eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. | Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Bu disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn rhan o'r broses ymgynghori. Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod â'r ddau Gyngor Ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd y wybodaeth a ddarparwyd i'r cyfranogwyr mewn modd perthnasol i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth, ac yn unol â'r arfer y cytunwyd â'r Penaethiaid ymlaen llaw.<br><br>Datblygodd y Cyngor ffurflen ymateb A3 a oedd yn hawdd i'r plant ei chwblhau. Cwblhaodd y disgyblion y ffurflen ymateb mewn grwpiau a rhoddwyd y cyfle iddynt siarad yn rhydd a gofyn cwestiynau.<br><br>Gellir gweld crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn adran 5.7 o'r adroddiad ymgynghoriad.<br><br>Ymwelodd swyddogion y Cyngor â'r ddwy ysgol i ganfod eu barnau ar y cynnig. Ymgynghorwyd â'r Cynghorau Ysgol yn y ddwy ysgol, ac ar gais rhieni yn Ysgol Talwrn cafodd grŵp o blant o wahanol oedrannau gyfle i gyfrannu ymhellach i'r ymgynghoriad.<br><br>Eglurodd y swyddogion bod y Cyngor yn gyfrifol am ysgolion ym Môn a'u bod yn gweithio fel rhan o dîm i roi cymorth i ysgolion, gyda'r nodau a ganlyn:<br><br>• Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion rhagorol ar yr ynys.<br>• Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.<br>• Sicrhau bod arian ar gyfer plant ac ysgolion ym Môn yn cael ei wario'n deg.<br>• Rhoi'r cyfle i bawb gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Atgoffwyd y plant am Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br><br>'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.<br><br>Eglurwyd y byddai'r wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt yn cael ei throsglwyddo i adroddiad a'i chyflwyno i Gynghorwyr fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad.<br><br>Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant:<br><br>• Beth fyddai'n newid?<br>• Beth ydych yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?<br>• Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn eich ysgol bresennol?<br>• Sut ydych yn cyrraedd eich ysgol bresennol?<br>• Sut ydych chi'n teimlo am y cynnig?<br>• Beth fyddech chi'n ei hoffi am y cynnig?<br>• Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am y cynnig?<br>• Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud?<br><br>Nodwyd ymatebion y disgyblion yn yr adroddiad ymgynghoriad a chyhoeddwyd eu sylwadau yn yr adroddiad ymgynghoriad a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020, a chymerwyd barn y disgyblion i ystyriaeth fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.<br><br>Un enghraifft o hyn oedd er bod rhai plant yn ychydig yn bryderus am y posibilrwydd o wireddu'r cynnig, roedd rhai disgyblion yn awyddus i gael mwy o le i chwarae (ardal o laswellt i chwarae pêl-droed).<br><br>**Felly, cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 ac mae barn plant wedi ei chynnwys a'i hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.** |
| **14.** | Anghytuno gyda'r ffordd mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Ddeddf Llesiant yn yr Asesiad Effaith o'r cynnig. | O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn gweithredu drwy ddilyn 5 ffordd o weithio sef Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys.<br><br>O ran Hirdymor, nodwyd yn yr Asesiad Effaith bod angen sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Nodwyd hefyd bod angen sicrhau bod yr adeilad ysgol yn addas i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. Amlinellwyd sut y byddai'r cynnig yn gwneud hyn yn y Papur Cynnig, yn y Ddogfen Ymgynghori ac yn yr Adroddiad Ymgynghoriad. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | O ran Integreiddio, mae'r papur cynnig yn amlygu sut y bu i'r Cyngor ystyried integreiddio sefydliadau eraill i mewn i'r gwahanol opsiynau a werthuswyd yn erbyn y gyrwyr newid.<br><br>O ran Cynnwys, nodwyd yn yr Asesiad Effaith fod y "cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi ymglymiad rhanddeiliaid yn y cynnig". Gwnaethpwyd hyn a nodwyd yn yr adroddiad ymgynghoriad fod 57 o randdeiliaid o ardal Talwrn wedi ymateb. Yn ogystal, mae'r cyfnod gwrthwynebu hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid gael ei cynnwys yn y broses.<br><br>Ar ôl derbyn adborth gan randdeiliaid, cytunwyd byddai'r Asesiad Effaith o'r cynnig (a oedd yn asesiad o effaith posib y cynnig ar y gymuned, yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb) yn ddogfen fyw. Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai effaith posib y cynnig yn cael ei asesu drwy gydol y prosiect nes gwireddir y cynnig.<br><br>Cafodd yr Asesiad Effaith ei ddiweddaru i gynnwys pwyntiau am yr Asesiad a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Pan benderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi'r cynnig yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020, cytunodd y Pwyllgor yn ogystal i awdurdodi swyddogion i ailgyhoeddi'r Asesiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned.<br><br>Mae pob mater sy'n mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn gorfod asesu effaith posib y mater neu'r cynnig ar Genedlaethau'r Dyfodol. Dyma'r cwestiynau sydd angen eu hystyried:<br><br>i. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?<br>ii. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut?<br>iii. A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy?<br>iv. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut.<br>v. Pa effaith os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg?<br><br>**Er ei bod ynymddangos mai mater o farn yw'r pwynt hwn, mae'r Cyngor wedi glynu at y drefn a'r broses ddisgwyliedig trwy gynnal asesiad effaith ar y cynnig pe bai'n cael ei wireddu. Felly, cafodd y cynnig dan sylw ei asesu o ran ei effaith bosib ar Genedlaethau'r Dyfodol.** |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **15.** | Angen i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ystyried yr opsiynau efo meddwl agored<br><br>• Dim newid ers 2019 yn y cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) | Roedd y papur cynnig (Ionawr 2020) yn amlinellu 11 opsiwn sydd wedi'u hystyried ar gyfer ardal Llangefni, yn ogystal â 10 opsiwn arall sydd wedi'u hystyried ar gyfer Ysgol Talwrn a 9 opsiwn ar gyfer Ysgol Y Graig fel ysgolion unigol. Yn ogystal, yn yr adroddiad ymgynghoriad (Rhagfyr 2020) ystyriwyd 12 o opsiynau gan randdeiliaid fel opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn (gweler y rhestr isod):<br><br>1. Buddsoddi yn Ysgol Talwrn i ddod â hi i safon 21ain Ganrif<br>2. Agor ysgol ardal newydd ar gyfer Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth<br>3. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)<br>4. Gadael Ysgol Talwrn fel y mae<br>5. Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn<br>6. Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth<br>7. Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti<br>8. Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn<br>9. Ffedereiddio Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch ac ymestyn Ysgol Y Graig.<br>10. Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a ffedereiddio gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd<br>11. Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran ffedereiddio yn nes ymlaen<br>12. Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.<br><br>Bu'r Cyngor yn gyson ac yn dryloyw wrth ystyried ac asesu'r opsiynau hyn yn drylwyr. Dywed y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ei bod yn ofynnol "i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad..<br><br>Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."<br><br>Er **nad** yw Ysgol Talwrn yn ysgol wledig, wrth asesu'r opsiynau hyn, mae'r Cyngor wedi trin Ysgol Talwrn fel ysgol wledig ac felly wedi mynd **tu hwnt i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** ac wedi ystyried ac asesu 12 o opsiynau amgen rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn<br><br>Cafodd yr opsiynau hyn eu gwerthuso yn yr adroddiad ymgynghoriad yn erbyn y gyrwyr allweddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion sef: |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | ▪ Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.<br>▪ Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd.<br>▪ Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.<br>▪ Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.<br>▪ Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.<br>▪ Bydd angen o leiaf cynnal y **ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.<br>▪ Mae angen cynnal y **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.<br><br>Gwerthuswyd yr opsiynau hyn ar sail gwybodaeth gan swyddogion e.e. cyflwr adeilad yr ysgol, costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol, safonau addysg. Felly, roedd yr adroddiad ymgynghoriad yn adlewyrchu safbwynt swyddogion y Cyngor ar nifer o ddisgyblaethau.<br><br>**Er nad yw'r casgliad wedi newid ac nad oes gan y Cyngor dim yn erbyn Ysgol Talwrn, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a'r manylder mae'r Cyngor wedi mynd iddo'n golygu fod y Cyngor wedi gwerthuso'r opsiynau yn ofalus ac yn drylwyr ac felly bydd yn galluogi i'r penderfyniad gael ei wneud gyda meddwl agored.** |
| **16.** | Cost arfaethedig y cynllun<br>• Anghytuno gyda'r ffigurau<br>• Ydi'r cynllun yn fforddiadwy? | Roedd y papur cynnig a'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu sut mae hwn yn fforddiadwy i'r Cyngor:<br><br>Ar hyn o bryd, y gost gyfalaf a ragwelir ar gyfer y cynnig yw £5.923m; fe ariennir hyn yn rhannol (65%) gan raglen Ysgolion 21ain Ganrif. Efallai y bydd y gost gyfalaf yn cynyddu gyda chwyddiant.<br><br>Cost cyfalaf arfaethedig y cynnig ydi £5,923,323.<br><br>Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu 65% drwy raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu 35%. Nid oes modd defnyddio cyllid o ffynhonellau eraill. |

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | (see below) |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y Gost | £5,923,323 |
| Grant Ysgolion 21ain Ganrif | £3,850,160 |
| Cyfraniad yr Awdurdod i'r prosiect | £2,073,163 |

Disgwylir ariannu cyfraniad y Cyngor o £2.073m trwy:

£150k mewn derbynion cyfalaf o werthiant safle Ysgol Talwrn;

£1.923m o fenthyciad digefnogaeth nad yw'n denu grantiau gan y Llywodraeth.

Dangosir y gost gyffredinol a'r ffynonellau cyllid isod:

Amcangyfrifir mai'r arbediad refeniw (ac eithrio costau ariannu sy'n gysylltiedig â'r adeilad) o'r prosiect hwn fydd:

tua £31k y flwyddyn yn seiliedig ar y fformiwla cyllido ysgolion; ac

Arbediad pellach o £30k ar gostau cludiant (fel arall byddai'n rhaid cludo disgyblion i ysgolion tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti).

Felly bydd yna arbediad refeniw net parhaus o £61k y flwyddyn.

Y gost fenthyca er mwyn ariannu'r £1.923m o fenthyciad digefnogaeth fydd tua £94k y flwyddyn. Bydd y £61k o arbediad refeniw a geir o ganlyniad yn cael ei glustnodi tuag at ad-dalu'r benthyciad digefnogaeth. Felly y gost net blynyddol i'r Cyngor fyddai tua £33,000. Yn ogystal, disgwylir cyfraniad gan ddatblygwr tai rhwng 2019/20 a 2026/27. Bydd yr Awdurdod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ariannu unrhyw ddiffyg fyddai'n weddill.

Bydd y cynnig hefyd yn dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £505,500 ar Ysgol Talwrn (£447,500) ac Ysgol y Graig (£58,000). Pe byddai'r Cyngor yn ariannu'r gost o £505,500 drwy fenthyciad di-gefnogaeth (dros 20 mlynedd) , byddai hynny'n costio tua £40k y flwyddyn i'w gyllido. Gellid dadlau bod y swm hwn hefyd felly yn arbediad.

**Felly, mae'r cynnig yn fforddiadwy i'r Cyngor. Mae'r Cyngor o'r farn mai annoeth fyddai peidio buddsoddi gan fod cynnydd wedi bod yn niferoedd plant yn yr adral yn y gorffennol a bydd niferoedd plant yn parhau i gynyddu o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau tai yn nalgylch Ysgol y Graig.**

| | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| 17. | Ymateb y Cyngor<br>• Safbwynt y Cyngor ynteu swyddogion? | Cafodd y papur cynnig a'r adroddiad ymgynghoriad eu trafod a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith cyn eu cyhoeddi. Gwnaeth y Pwyllgor Gwaith ei benderfyniad ar sail y dogfennaeth a oedd yn crynhoi'r gwaith a wnaethpwyd gan swyddogion fel rhan o'r broses. Felly, wrth gymeradwyo'r dogfennau hyn, daeth yn farn y Pwyllgor Gwaith sydd yn gweithredu ar ran y Cyngor.<br><br>Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |
| **18.** | Maint dosbarthiadau<br><br>• Rhy fawr yn yr ysgol ehangedig newydd? | Tra bo meintiau dosbarthiadau yn Ysgol Y Graig weithiau ychydig dros 30, nid oes terfyn statudol ar faint unrhyw ddosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2. Fel arfer, y prif reswm am ddosbarthiadau o 30+ yw oherwydd cyllidebau ysgol cyfyngedig. Defnyddir cyfran o'r gyllideb ysgol i gynnal adeiladau ysgol (trethi, ynni, glanhau, gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac ati). Po fwyaf o adeiladau sydd angen eu cynnal, y lleiaf o gyllideb sydd ar gael i'w wario ar adnoddau eraill fel athrawon. Yn ogystal, mae'r gost fesul disgybl mewn ysgolion bach yn fwy nag ydyw mewn ysgolion mwy. Gellid dadlau bod yr ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfwerth â chyllid ychwanegol i gynnal lleiafswm o lefelau staffio, a bod yr ysgolion mwyaf yn colli allan oherwydd hynny. Gellid dadlau felly y bydd y cynnig yn helpu i leihau nifer y dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy na 30 o ddysgwyr.<br><br>Cafwyd barn disgyblion a drosglwyddodd o ysgolion bychain i un o ysgolion cynradd newydd Môn yn ogystal â barn y Pennaeth. Dywedwyd na fu probemau wrth drosglwyddo o ysgol fechan i ysgol fwy. Roedd y plant wedi ymgartrefu ac wedi gwneud ffrindiau newydd yn gyflym iawn. Gwnaeth nifer o rieni sylwadau am ba mor gyflym a rhwydd oedd y symud a'i fod y peth gorau a ddidgwyddodd i'w plant.<br>Nodwyd fod y plant wedi cael cyfleoedd nad oedd wedi bod yn bosibl yn yr ysgolion unigol bychain – teithiau preswyl, twrnament chwaraeon, ymweliadau ac ymwelwyr.<br><br>Yn ogystal, mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yng nghategori 'A' gwyrdd gan GwE, o ran anghenion cymorth, yn unol â'r diffiniadau yn y model cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Barnwyd fod gan y ddwy ysgol ddeilliannau 'da' ym mhob maes arolygu gan Estyn:<br><br>Ysgol Talwrn – Hydref 2018<br><br>Ysgol y Graig – Ionawr 2019<br><br>Byddai gan yr ysgol ehangedig newydd yr adnoddau i sicrhau bod yr addysgu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r disgyblion hynny yr ystyrir eu bod y mwyaf abl a thalentog. Bydd ysgol o'r maint hwn yn rhoi mwy o amrywiaeth cwricwlaidd oherwydd adnoddau ac addysgu arbenigol h.y. TG, cerddoriaeth. Byddai mwy o gyfle i wneud gweithgareddau allgyrsiol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Oherwydd adnoddau ychwanegol a'r gallu i benodi staff arbenigol, gall ysgolion mwy ddarparu gofal bugeiliol a grwpiau anogaeth. |

<table>
<tr><th></th><th>Crynodeb o’r gwrthwynebiadau</th><th>Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>O ganlyniad i wireddu’r cynnig presennol, byddai newid yn amgylchedd dysgu’r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall y newid brofi i fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i amharu cyn lleied â phosib ac i gynorthwyo disgyblion ag unrhyw drosglwyddiad. Bydd disgyblion ag ADY sy’n mynychu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen i ddiwallu eu hanghenion. Mae’r cynnig hefyd yn cynnig y posibilrwydd o ddatblygu mwy o arbenigeddau a chapasiti i ymdrin ag anghenion disgyblion mwy bregus a disgyblion mwy abl a thalentog. Byddai diogelu’n parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>Ar y cyfan, mae safonau’r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn gyson dda ac mae perfformiad y ddwy ysgol yn gyson, yn gyffredinol. Gellid dadlau felly nad yw maint dosbarthiadau yn gwneud gwahaniaeth i safon yr addysg.</td></tr>
<tr><td>19.</td><td>Maint yr ysgol ehangedig<br>• Ydi hi ddigon mawr?<br>• Fydd hi’n llenwi’n gyflym?</td><td>Mae’r Awdurdod o’r farn y byddai’r cynnig sydd dan ystyriaeth yn darparu lleoedd digonol ar gyfer uchafswm niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn ystod y blynyddooedd nesaf, h.y. 419. Mae’r rhif hwn yn seiliedig ar yr ystyriaethau a ganlyn:<br><br>Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37 sy'n ostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sy'n gynnydd o 3%. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.<br><br>Yn ogystal, mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a niferoedd y plant oed ysgol gynradd a fydd yn codi o'r rhain. Dangosir nifer y plant oed ysgol gynradd sy'n deillio o'r datblygiadau tai newydd yn y tabl isod:<br><br><table><tr><th>Ysgol</th><th>Datblygiadau tai arfaethedig yn y dalgylch hyd at 2026</th><th>Nifer cyfatebol y plant*</th></tr><tr><td>Y Graig</td><td>397</td><td>67 - 143</td></tr><tr><td>Talwrn</td><td>6</td><td>1 - 2</td></tr></table>* Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ yn Ynys Môn 0.17 o blant oedran ysgol gynradd ar gyfartaledd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.17, yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Fodd bynnag, yn ward Tudur, mae 0.36 o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd ym mhob tŷ a gallai hyn arwain at gyfanswm o 145 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.<br><br>Er bod y datblygiadau tai arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio p’un a fydd y datblygiadau arfaethedig hyn yn symud ymlaen yn y broses gynllunio. Yn gyntaf, byddai angen eu hasesu i benderfynu a fyddai'r datblygiad(au) arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion er mwyn ceisio caniatâd cynllunio ac yna a fyddai caniatâd cynllunio (sy'n ddilys am 5 mlynedd) yn cael ei roi. Hynny yw, amcangyfrif yw nifer y tai yn y tabl uchod ac nid yw'n sicrwydd y byddai’r holl dai hyn yn cael eu hadeiladu erbyn 2027. Pe bai'r datblygiadau tai arfaethedig hyn yn cael eu hadeiladu, byddai'r datblygwr yn debygol iawn o'u hadeiladu fesul cam. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th></th><th>Crynodeb o’r gwrthwynebiadau</th><th>Ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>
y disgyblion yn cynyddu'n raddol ac NI fyddai'n golygu y byddai'r nifer uchaf o ddisgyblion h.y. 145 (143 + 2 = 145, o’r tabl uchod) yn dechrau mynychu'r ysgol ar yr un pryd. Er hynny, byddai’r ysgol yn cael ei hadeiladu i sicrhau y byddai’n gallu cael ei ehangu i’r dyfodol.
Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion yn yr Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig hyd at Fedi 2027, gan ystyried uchafswm y datblygiadau tai arfaethedig a grybwyllir uchod.
<table>
<tr><th></th><th colspan="5">Nifer rhagamcanol ar y gofrestr ym mis Medi</th></tr>
<tr><th></th><th>2023</th><th>2024</th><th>2025</th><th>2026</th><th>2027</th></tr>
<tr><td>Ysgol Y Graig ehangedig</td><td>383</td><td>404</td><td>407</td><td>418</td><td>419</td></tr>
</table>
Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Hydref 2019, roedd gan Ysgol Talwrn 14% o leoedd dros ben, er bod 17% (7 disgybl) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac mae 31% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn (13 disgybl) yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.
Gall rhieni hefyd ddewis anfon eu plentyn / plant i ba ysgol bynnag y maent yn dymuno.
</td></tr>
<tr><td>20.</td><td>Safle Ysgol Talwrn<br>• Pwy sy’n berchen ar y safle?<br>• Ai prydles neu rhyddfraint sydd?</td><td>Mae’r safle Ysgol Talwrn yn eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn ac wedi'i gofrestru o dan rif teitl CYM615519 fel rhyddfraint.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank